Polisi Amgylcheddol Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Mae **Cyngor Cymuned Llanystumdwy** yn cydnabod ei rôl a'i gyfrifoldeb yn gwarchod a gwella yr amgylchedd. Yr ydym yn cydnabod bod gweithredu ar lefel leol yn dod â budd byd-eang drwy warchod yr amgylchedd a'i adnoddau ar gyfer cenedlaethau sydd i ddod.

Byddwn yn adolygu ein gwasanaethau i sicrhau:

Bod yr effeithiau negyddol yn cael eu rheoli, eu lleihau neu eu dileu.

Bod ein gweithgareddau yn cydymffurfio â rheoliadau a deddfwriaeth amgylcheddol.

Er mwyn cyflawni yr amcanion hyn bydd y polisi hwn yn cynnwys ein hymateb i'r materion amgylcheddol canlynol:

Rheoli Gwastraff
Lleihau, ail-ddefnyddio neu ailgylchu gwastraff gan sicrhau bod pob gwastraff a gynhyrchir gan ein gweithgareddau yn cael ei storio, ei drafod, ei gludo a'i waredu yn ddiogel.

Rheoli Llygredd
Gweithredu mesurau i leihau effeithiau'r hyn sy'n cael ei ryddhau i'r aer, i'r dŵr neu i'r tir o ganlyniad i'n gweithgareddau.

Rheoli Ynni ac Adnoddau
Gweithredu mesurau ar gyfer rheoli ynni ac adnoddau yn seiliedig ar fonitro defnydd, dyluniadau ynni-effeithlon a chadwraeth.

Prynu
Wrth ofyn am bris, hyrwyddo ystyriaethau cynaliadwyedd fel sail ar gyfer penderfyniadau prynu. Dewis cyflenwyr a chontractwyr yn unol â'u hagwedd tuag at faterion amgylcheddol. Cydweithio gyda chyflenwyr er mwyn hyrwyddo gwelliannau yn eu perfformiad amgylcheddol.

Mabwysiadwyd: Gorffennaf 2014.

Bydd y Polisi Amgylcheddol yn cael ei ddiweddaru bob pedair blynedd, neu ynghynt na hynny yn sgîl rheoliadau newydd neu newid mewn deddfwriaeth. Bydd angen mwyafrif o ddeuparth o'r holl Gynghorwyr i newid y Polisi Amgylcheddol.

Llofnodwyd gan: